# Y camau cyntaf yn yr awyr agored

**Gwneud y gorau o'ch mannau awyr agored**

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Cymry Ifanc
Young Wales



Learning through LANDSCAPES CYMRU

# Rhagair

Mae Cymru yn arwain y ffordd yn y DU o ran datblygu ffyrdd o ddysgu yn yr awyr agored. Mae cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen wedi pwysleisio bod dysgu drwy brofiadau yn yr awyr agored yn rhan annatod o'r ffordd rydym yn addysgu'n plant 3-7 oed yng Nghymru.

Mae'r canllaw hwn, *Y Camau Cyntaf yn yr Awyr Agored* a baratowyd gan LTL Cymru at gyfer Llywodraeth y Cynulliad, yn darparu cyngor ac astudiaethau achos i gynorthwyo lleoliadau blynyddoedd cynnar ac ysgolion i ddatblygu eu mannau awyr agored er mwyn darparu cyfleoedd chwarae a dysgu o ansawdd da yn y Cyfnod Sylfaen. Mae'n tywys ymarferwyr drwy bob cam o'u datblygiadau awyr agored ac yn darparu syniadau ymarferol ynglŷn â sut i sicrhau bod lleisiau a safbwyntiau plant am eu mannau awyr agored yn cael eu clywed ac yn cael eu cynnwys fel rhan o'r broses ddatblygu. Yn ogystal â'r canllaw hwn, mae LTL Cymru yn darparu adnoddau ar-lein ategol ar eu gwefan (**www.ltl-cymru.org.uk**).

Gobeithio y bydd *Y Camau Cyntaf yn yr Awyr Agored* yn ganllaw defnyddiol ac yn eich cynorthwyo chi a'ch partneriaid i ddatblygu mannau awyr agored sy'n cyffroi ac yn ysgogi lle gall plant ifanc chwarae, dysgu a thyfu.

**Leighton Andrews**
**Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes**

# Cyflwyniad

Datblygwyd yr arweiniad cam wrth gam hwn gan Learning through Landscapes Cymru i gynorthwyo lleoliadau'r blynyddoedd cynnar – a gynhelir a nas cynhelir – ac ysgolion i ddatblygu eu mannau awyr agored er mwyn cyflwyno darpariaeth awyr agored o ansawdd da o fewn y Cyfnod Sylfaen.

Seiliwyd y cyngor a roddir yma ar yr 20 mlynedd o ymchwil a phrofiad sydd gan Learning through Landscapes ar ôl gweithio gyda mwy na 18,000 o ysgolion a lleoliadau'r blynyddoedd cynnar.

Gall cynllunio i wneud newidiadau ffisegol i'r tu allan i'ch lleoliad ymddangos yn anodd tu hwnt ar yr olwg gyntaf. Ond wrth newid eich mannau awyr agored, mae cynllunio'n hanfodol er mwyn sicrhau eich bod yn gwneud defnydd effeithiol o'r adnoddau sydd gennych eisoes a bod y newidiadau a wnewch yn gallu diwallu anghenion eich lleoliad nawr ac yn y dyfodol.

I'ch helpu i gynllunio'n llwyddiannus, mae LTL wedi datblygu 'proses newid'. Mae pedwar cam i'r broses hon:

**Ble rydyn ni'n awr?**

- Defnydd – sut y defnyddir eich man awyr agored ar hyn o bryd?
- Cynllun – beth yw cynllun a nodweddion presennol eich man awyr agored?
- Rheoli – sut rydych yn cynnal eich man awyr agored?

**Beth ydyn ni am ei gyflawni?**

- Defnydd – sut ydych am allu defnyddio'ch mannau awyr agored?
- Cynllun – sut allwch ddatblygu'ch mannau awyr agored i ddiwallu'ch anghenion?
- Rheoli – sut ellir eich cynorthwyo i ddefnyddio a datblygu'ch mannau awyr agored?

**Sut mae cyrraedd y nod?**

- Penderfynu ar elfennau cynllunio
- Datblygu brîff cynllunio a chynllun gweithredu
- Sefydlu tîm rheoli prosiect

**Gwneud y newidiadau**

- Penderfynu pwy sy'n gwneud y gwaith
- Creu cynllun rheoli a chynllun cynnal a chadw
- Dathlu eich cyflawniadau

Mae'r arweiniad hwn yn eich tywys drwy bob cam o'r broses o newid, gan roi cyngor, awgrymiadau, gweithgareddau ac adnoddau ar hyd y ffordd i'ch helpu i wneud y gorau o ddatblygu'ch ardal awyr agored, beth bynnag yw maint eich cyllideb neu'ch gofod.

# Pam mynd ag addysgu a dysgu i'r awyr agored?

Gyda phlant heddiw'n treulio mwy a mwy o amser y tu mewn ac yn byw bywydau mwy a mwy segur, mae pwysigrwydd mynd ag addysgu a dysgu y tu allan yn tyfu'n sylweddol. Mae'r Cyfnod Sylfaen yn cydnabod pwysigrwydd yr awyr agored drwy ddatgan: 'Mae amgylcheddau dan do ac awyr agored sy'n hwyliog, cyffrous, ysgogol a diogel yn hyrwyddo datblygiad a chwilfrydedd naturiol plant i archwilio a dysgu drwy brofiadau uniongyrchol. Dylai amgylchedd y Cyfnod Sylfaen hyrwyddo... mwy o bwyslais ar ddefnyddio'r amgylchedd awyr agored fel adnodd ar gyfer dysgu plant.'

Felly pam fod yr awyr agored mor bwysig?



## Manteision i blant

Dyma beth y gall plant ei wneud yn yr awyr agored.

### Mwynhau a meithrin dealltwriaeth, sgiliau a chymwyseddau newydd drwy archwilio wrth chwarae a datblygu ysbryd o ymholi

- Mae ardal awyr agored gyffrous wedi'i chynllunio'n dda yn cynnig cyfleoedd dysgu heb eu hail ac yn ymestyn ac ategu dysgu dan do.
- Mae amgylchedd deinamig yr awyr agored, sy'n newid gyda'r tymhorau a'r tywydd, yn datblygu plant yn gyfannol ac yn annog meysydd dysgu penodol, yn enwedig gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd.
- Yn aml, daw plant tawel 'o hyd i'w lleisiau' yn yr awyr agored a defnyddio iaith yn wahanol. Mae'n lle gwych i adrodd straeon, canu caneuon a rhigymau symud, yn ogystal â chefnogi chwarae rôl.
- Gellir archwilio teimladau ac emosiynau os oes llefydd i ymlacio, bod yn ddistaw a breuddwydio, a llefydd i fod yn swnllyd, yn llawn cyffro ac yn greadigol.
- Gellir cefnogi rhifedd a datrys problemau drwy brofiadau ymarferol go iawn ac mae cyfle i blant weithio ar raddfa fwy nag sy'n bosibl dan do.

### Bod yn ddiogel wrth ddatblygu'r sgiliau i reoli risg a wynebu heriau newydd

- Mae rheoli risgiau ffisegol yn annog plant i roi cynnig arni a gwthio'u hunain heb ofni methiant.
- Gall plant greu eu ffeuau a'u cuddfannau eu hunain allan o olwg oedolion.

### Datblygu sgiliau bywyd a bod yn rhan o'r gymuned a'r amgylchedd

- Mae cymryd rhan mewn profiadau awyr agored yn helpu plant i ddatblygu sgiliau byw fel hyder, dyfalbarhad, creadigrwydd, gwneud penderfyniadau ac arweinyddiaeth.
- Mae chwarae a gweithio yn yr awyr agored yn helpu plant i ddeall a pharchu natur, yr amgylchedd a chyd-ddibyniaeth pobl, planhigion ac anifeiliaid, yn ogystal â systemau ecolegol fel y tywydd a chylchoedd bywyd.
- Gellir annog aelodau o'r gymuned i roi help llaw gyda'r gwaith o gynllunio a gofalu am yr ardal arwyr agored a bydd hynny, yn ei dro, yn helpu plant i deimlo mwy o gysylltiad â'u cymdogaeth.

### Meithrin hyder, cyfranogi, cyfrannu a datblygu ymdeimlad o les

- Mae plant yn mwynhau cymryd rhan mewn gwaith cynllunio a phenderfynu pa newidiadau a gwelliannau ddylid eu gwneud. Mae eu cynnwys yn y ffordd hon yn annog sgiliau penderfynu a datrys problemau.
- Mae awyr iach a gweithgarwch egnïol yn hanfodol i les, ffitrwydd ac iechyd plant.
- Po fwyaf o ymarfer a gaiff cyhyrau a synhwyrau plant, mwya'n byd fydd yr ymennydd yn datblygu ei allu i ddysgu.

## Manteision i'r lleoliad

Yn aml, eich mannau awyr agored yw'r peth cyntaf fydd ymwelwyr a darpar rieni/cynhalwyr yn ei weld wrth ymweld â'ch lleoliad, ac mae creu argraff gyntaf dda yn bwysig. Mae sut mae'ch mannau awyr agored yn edrych a sut y cânt eu defnyddio'n dweud cyfrolau am werthoedd eich lleoliad. Byddwch yn ymwybodol o'r negeseuon y gallai mannau awyr agored eich lleoliad fod yn eu cyfleu i bobl sy'n ymweld â chi am y tro cyntaf.

- A yw'ch mannau awyr agored yn edrych yn groesawgar?
- A yw plant yn gartrefol ynddynt?
- A yw pawb yn eich tîm yn deall gwerth yr awyr agored ac yn ei ddefnyddio? Bydd ymwelwyr yn sylwi'n gyflym os oes diffyg ymroddiad i'r hyn a gyflwynir fel gweledigaeth a rennir.
- A yw'r ffiniau allanol yn tawelu meddwl yn hytrach na chodi ofn?
- A yw'ch mannau awyr agored yn hygyrch ac yn ddymunol i blant a rhieni/cynhalwyr ag anableddau?





## Manteision i ymarferwyr

Yn aml, gwelir bod plant yn ymroi mwy i'w gweithgareddau a'u dysgu yn yr awyr agored. Gall hyn yn ei dro wneud y staff yn fwy brwdfrydig a'u hysbrydoli i ddefnyddio'r amrywiaeth eang o adnoddau a symbyliadau sydd gan yr awyr agored i'w cynnig ar gyfer datblygu eu cynlluniau a'u darpariaeth.

Gall gofod a rhyddid yr awyr agored ategu perthynas effeithiol rhwng ymarferwyr a phlant – er enghraifft, mae'n bosibl y bydd lefelau ymwneud y plant yn galluogi'r staff i arsylwi mwy nag arfer, gan gamu i mewn pan fo angen i strwythuro a chefnogi dysgu.

### Gellir cefnogi a chynnwys staff trwy:

- benodi ymarferydd 'arweiniol' ar gyfer dysgu a chwarae awyr agored i ddatblygu sgiliau ac arbenigedd y gall gweddill y tîm fanteisio arnynt.
- eu hannog i arsylwi ar blant yn yr awyr agored a chofnodi hyn dros gyfnod o amser. Bydd hyn nid yn unig yn helpu i adeiladu darlun cyfannol o ddatblygiad plant ond hefyd yn helpu i gyfrannu at ymarfer a darpariaeth awyr agored y lleoliad.
- sicrhau bod gan staff, fel y plant, ddillad addas ar gyfer yr awyr agored
- cynnwys dysgu awyr agored ar agendâu cyfarfodydd staff ac mewn sesiynau HMS yn rheolaidd.

**Gallwn helpu** Mae gweithio yn yr awyr agored yn rhan bwysig o rôl ymarferydd y blynyddoedd cynnar, ac efallai fod angen datblygiad proffesiynol parhaus i ddatblygu a chefnogi ymarfer awyr agored. Gall LTL Cymru helpu gyda hyn. I wybod mwy ewch i **www.ltl-cymru.org.uk**



# Meddyliwch yn bositif!

**Y tywydd** Nid oes y fath beth â thywydd gwael, dim ond dillad amhriodol. Gallai hon ddod yn ddihareb newydd yn eich lleoliad! Bydd gwneud yn siŵr fod plant ac oedolion yn gwisgo'n addas drwy gydol y flwyddyn yn eich helpu i wneud y gorau o'r amgylchedd awyr agored. Gofynnwch am roddion gan rieni/cynhalwyr, ewch i siopau elusen a ffeiriau sborion, neu codwch arian fel bod dillad addas, gan gynnwys esgidiau glaw, ymbareli a hetiau haul, ar gael i bob plentyn sydd am dreulio amser yn yr awyr agored. Wedi'r cyfan, mae pob plentyn wrth ei fodd yn neidio mewn pyllau dŵr! Gallwch osgoi gormod o haul a gwynt drwy ddarparu cysgod.

**Diogelwch a risg** Mae angen i blant gael cyfle i wthio'u hunain, darganfod beth yw eu terfynau a dysgu sut i reoli risg. Mae'n bwysig rhoi cyfle a rhyddid i blant allu gwneud hyn, ond mae hi hefyd yn bwysig sicrhau nad oes peryglon annerbyniol fel gwydr wedi torri neu garthion anifeiliaid yn y mannau awyr agored. Dylid archwilio tir y lleoliad yn rheolaidd.

**Fandaliaeth** Yn aml, pryderon ynglŷn â fandaliaeth yw un o'r prif rwystrau i ddatblygu mannau awyr agored. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod cynnwys y gymuned wrth ddatblygu'ch safle yn hybu ymdeimlad o falchder. Mae ardal sy'n edrych fel ei bod hi'n cael defnydd da ac sy'n ddiddorol ac yn groesawgar i'r gymuned yn llai tebygol o gael ei fandaleiddio.

**Diffyg arian** Weithiau, mae ariannu dysgu awyr agored i'w weld yn feichus. Fodd bynnag, mae defnyddio'r awyr agored yn rheolaidd yn elfen allweddol o'r Cyfnod Sylfaen felly dylai dderbyn yr un ystyriaeth ac adnoddau â dysgu dan do. Cofiwch, gallwch ddarparu'r pethau sylfaenol drwy wneud y gorau o'r elfennau a'r adnoddau naturiol y mae'r awyr agored yn eu cynnig, a sicrhau bod dillad addas ar gael. Gallai fod angen codi arian ar gyfer cynlluniau mwy uchelgeisiol ond bydd rhannu'ch cynlluniau'n gamau llai o faint – drwy ddefnyddio'r arweiniad hwn – o gymorth.

'Mae pwyslais cryf ar ddysgu awyr agored yn y Cyfnod Sylfaen. Dylai'r amgylchedd dysgu awyr agored fod yn estyniad o'r amgylchedd dysgu dan do. Dylid cynllunio gweithgareddau strwythuredig sy'n rhoi profiadau ar gyfer y diwrnod cyfan a chyn belled ag y bo modd, dylai plant gael symud yn rhwydd rhwng y tu mewn a'r tu allan (gan gadw mewn cof iechyd a diogelwch).'

**Chwarae a Dysgu Gweithredol**
**Llywodraeth y Cynulliad**

# Cam 1
# Ble rydyn ni nawr?

**Mae'r cam hwn o'r 'broses newid' yn edrych ar yr hyn sydd gan eich lleoliad i'w gynnig ar hyn o bryd, gan gynnwys:**

- **Defnydd** Sut y mae'ch ardal awyr agored yn cael ei defnyddio ar hyn o bryd ar gyfer dysgu a chwarae?
- **Cynllun** Beth yw cynllun a nodweddion eich ardal awyr agored ar hyn o bryd?
- **Rheoli** Beth yw'r weledigaeth a'r gwerthoedd ar gyfer eich ardal awyr agored? Sut y mae'ch ardal awyr agored yn cael ei chynnal a'i chadw a sut gyflwr sydd arni?



Beth am gychwyn arni! Mae mân welliannau yn rhoi'r brwdfrydedd a'r hyder i bawb fynd ymhellach.

## Sut y defnyddir eich gofod

Y cam cyntaf i wella profiadau plant yn yr awyr agored yw edrych yn fanwl ar sut rydych chi'n defnyddio'ch ardal awyr agored ar gyfer dysgu a chwarae ar hyn o bryd.

- Pa Feysydd Cyfnod Sylfaen o Ddysgu a gynhelir gennych yn yr awyr agored ar hyn o bryd?
- A oes unrhyw fylchau yn eich darpariaeth awyr agored gyfredol?
- Pa brofiadau a gweithgareddau sy'n digwydd yn yr awyr agored?
- Sut y mae'r profiadau hyn yn effeithio ar ei gilydd?
- Pa ffactorau sy'n effeithio ar brofiadau plant yn yr awyr agored?

Gall datblygu'r ffordd y defnyddiwch yr hyn sydd gennych eisoes fod yn fwy effeithiol na gwneud newidiadau ffisegol. Bydd wastad rhyw agwedd ar y ddarpariaeth y gallwch ei datblygu ar unwaith ac mae mân welliannau yn rhoi'r brwdfrydedd a'r hyder i bawb fynd ymhellach. Bydd edrych ar sut y defnyddiwch eich mannau awyr agored ar gyfer dysgu a chwarae ar hyn o bryd yn eich ysgogi i wneud mwy a hefyd yn dangos y gliriach i chi pa mor bell rydych chi eisiau mynd â'r gwaith (eich gweledigaeth).

Cael gafael ar gynllun sylfaenol – ar gael yn eich lleoliad, neu gan eich cyngor bwrdeistref – bydd dangos ardal allanol eich lleoliad yn ddefnyddiol iawn wrth gynllunio'r gwelliannau.

Bydd yr adnodd **Archwilio'ch ymarfer a'ch darpariaeth – Defnyddio** (tudalen 1.7) yn eich helpu i werthuso eich ymarfer a'ch darpariaeth awyr agored ar hyn o bryd. Bydd gwerthuso pa gyfarpar sydd gennych a pha mor aml y mae'n cael ei ddefnyddio yn dangos i chi y Meysydd Dysgu sy'n cael eu cwmpasu gennych yn barod a lle mae rhai bylchau o bosibl.

Mae cael barn plant am y man lle byddant yn dysgu ac yn tyfu yn rhan bwysig o'r broses o newid. Ceir syniadau am ddau **Weithgaredd** (tudalennau 1.4-1.6) i'ch helpu i gasglu eu safbwyntiau.



**Gallwn helpu** Mae gan LTL Cymru lawer o syniadau eraill am weithgareddau i gasglu safbwyntiau plant. I wybod mwy ewch i **www.ltl-cymru.org.uk**.

## Cynllun

Dechreuodd y rhan fwyaf o leoliadau sydd â mannau awyr agored bendigedig drwy gymryd camau bach ac maent wedi datblygu eu gofod awyr agored dros nifer o flynyddoedd. Mewn gwirionedd, mae'r rhan fwyaf yn datblygu eu mannau awyr agored yn barhaus.

Bydd defnyddio'r adnodd **Archwilio'ch ymarfer a'ch darpariaeth – Cynllun** (tudalennau 1.8-1.9) yn eich helpu i osgoi gwneud newidiadau anaddas. Cam cyntaf pwysig yw gweld pa nodweddion ac adnoddau sydd gennych eisoes yn ogystal ag adolygu sut mae eich ardal awyr agored yn edrych ac yn teimlo. Meddwl am beth sy'n gweithio'n dda a beth nad yw'n gweithio'n dda, a beth sydd angen ei wella fydd man cychwyn eich datblygiadau.

Bydd cynllun sylfaenol o du allan eich lleoliad – wedi'i luniadu wrth raddfa – yn eich helpu i gofnodi beth sydd gennych eisoes ar eich safle. Defnyddiwch y wybodaeth a gasglwyd drwy'ch archwiliad (cofiwch nodi nodweddion naturiol ac adeiledig) i greu darlun cynhwysfawr o sut mae'ch gofod yn edrych nawr. Dylech ystyried y pwyntiau canlynol:

- **gofod pontio** (yr ardal rhwng y tu mewn a'r awyr agored). Bydd cael hwn yn gywir yn gwneud gwahaniaeth enfawr i lwyddiant y mannau awyr agored y bydd plant yn eu defnyddio.
- **mynediad a symudiad** Bydd cofnodi llwybrau a ddefnyddir drwy ac o amgylch eich ardal yn ddefnyddiol wrth ystyried sut rydych chi eisiau i'r gofod gael ei ddefnyddio, ble i blannu, a sut i gadw allanfeydd argyfwng yn glir.
- **bywyd gwyllt** Bydd cynnal astudiaeth bioamrywiaeth yn sicrhau na fydd eich newidiadau'n niweidio bywyd gwyllt, yn ogystal â'ch helpu i weld unrhyw welliannau y gellid eu gwneud.

### Asesiadau risg a dadansoddiad risg/budd

Trwy gydol y broses newid, mae'n hanfodol ystyried risg yn y cyd-destun cywir. Rhaid dileu risgiau annerbyniol neu fynd i'r afael â nhw yn y cynllun. Ond mae cymryd risg yn bwrpasol mewn ffordd a reolir yn elfen allweddol o ddatblygiad plant ifanc. Bydd dadansoddiad risg/budd yn eich helpu i ddeall pa risgiau sy'n dderbyniol ac, mewn gwirionedd, yn bwysig.

Gall yr adnodd **Archwilio'ch ymarfer a'ch darpariaeth** (tudalennau 1.7-1.11) nodi meysydd y bydd angen mynd i'r afael â nhw drwy'r prosiect. I helpu gyda'r broses, defnyddiwch yr adnodd **Adnabod peryglon yn yr awyr agored** (tudalen 3.7).

Lluniwyd yr adnoddau hyn i'w defnyddio ochr yn ochr – yn hytrach nag yn lle – y wybodaeth a ddarperir gan eich awdurdod lleol.

**Gallwn helpu** Trwy ein cynllun aelodaeth gall LTL Cymru ddarparu adnoddau i chi i ddatblygu gofod pontio, galluogi mynediad a symudiadau ac annog bywyd gwyllt. I wybod mwy ewch i **www.ltl-cymru.org.uk**



## Rheoli

Efallai fod cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen yn golygu bod eich lleoliad bellach yn canolbwyntio mwy ar ddysgu a chwarae yn yr awyr agored nag o'r blaen. Gallai hyn effeithio ar eich amcanion, eich gwerthoedd a'r ffordd y mae'ch lleoliad yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu a defnyddio'ch ardal awyr agored. Bydd yr adnodd **Archwilio'ch ymarfer a'ch darpariaeth – Rheoli** (tudalennau 1.10-1.11) yn eich helpu i feddwl am faterion rheoli. Nawr yw'r amser i:

- bennu gweledigaeth a gwerthoedd eich lleoliad. Er enghraifft, 'bydd pob Maes Dysgu yn cael ei ddarparu yn yr awyr agored' neu 'bydd modd i'r plant fynd allan i'r awyr agored hyd yn oed pan fydd y tywydd yn wlyb neu'n oer.'
- ymgynghori â phawb y mae'r newidiadau yn effeithio arnynt cyn eu cofnodi i wneud yn siŵr bod eich gweledigaeth a'ch gwerthoedd yn adlewyrchiad cywir o egwyddorion eich lleoliad a'r bobl sy'n gysylltiedig â'r lle. Treuliwch amser yn darllen, yn meddwl ac yn siarad â chydweithwyr a rhieni/cynhalwyr i sicrhau gweledigaeth gytûn o'r hyn y mae modd ei gyflawni yn yr awyr agored. Gwnewch yn siŵr bod pob aelod o staff yn deall y rhesymeg wrth wraidd y weledigaeth fel bod pawb yn sicr o allu gweithredu'r math o brofiadau y cytunir arnynt ar gyfer y plant.
- adolygu datblygiad proffesiynol y staff mewn perthynas â'r awyr agored er mwyn canfod bylchau a chynllunio ar gyfer hyfforddiant.
- meddwl am godi arian. I blant, gall hwn fod yn gam hwyliog ar y ffordd i wella'r profiadau awyr agored.

**Gallwn helpu** Trwy ein cynllun aelodaeth gall LTL Cymru ddarparu:

- pecynnau hyfforddi ar gyfer y lleoliad cyfan neu unigolion ar bob agwedd ar ymarfer a darpariaeth yn yr awyr agored,
- copi o'n dogfen Gweledigaeth a Gwerthoedd ar gyfer Chwarae yn yr Awyr Agored yn y Blynyddoedd Cynnar, sydd wedi'i llunio gyda thîm o arbenigwyr addysg o bob cwr o'r DU, i'ch helpu i sefydlu neu adolygu eich dogfennau eich hun.
- Cyngor ar godi arian a ffynonellau cyllid

I wybod mwy ewch i **www.ltl-cymru.org.uk**



Mae **Ysgol Gynradd Penuwch, Ceredigion** yn ysgol fach iawn â thua 40 o ddisgyblion. Mae mewn ardal wledig ac yn cyfrannu'n allweddol at ddwyn cymuned ar wasgar ynghyd drwy ddigwyddiadau amrywiol a gynhelir yn ystod y flwyddyn. Drwy ymgynghori a chynllunio, roedd y plant a'r disgyblion yn gwybod yn union beth oeddynt am ei weld yn eu man awyr agored a sut i gyflawni hynny. Maent wedi creu ystafell ddosbarth cromen helyg newydd, gyda mynedfa drwy dwnnel i'w gwneud yn fwy cyffrous ar gyfer y plant iau. Mae marciau maes chwarae a gemau targed wedi'u hychwanegu i wella'r mannau tarmac anniddorol. Mae gardd synhwyraidd gyda nodwedd dŵr, cloch wynt, drych a llwyth o blanhigion persawrus wedi'u datblygu yn arbennig ar gyfer plant sydd ag anghenion arbennig.

# Mesur mwynhad

Er nad yw hwn yn weithgaredd a fydd yn darparu gwybodaeth fanwl, mae'n ffordd hwyliog o ofyn i blant am eu barn.

## Defnyddiwch y gweithgaredd hwn i

- nodi blaenoriaethau plant o ran amgylcheddau cyfredol
- pennu canfyddiadau plant am eu profiadau bob dydd
- arolygu safbwyntiau ar amgylcheddau cyfredol

## Beth fyddwch ei angen

Bydd recordydd tâp, recordydd fideo, dictaffon neu recordydd llais MP3 yn offer defnyddiol ar gyfer recordio ymatebion y plant.

## Beth ddylech ei wneud

Eglurwch y gweithgaredd i'r plant cyn cychwyn.

- Mewn grwpiau bach, ewch â'r plant o gwmpas y man awyr agored, gan eu hannog i ymateb yn uchel neu'n isel, yn dibynnu ar sut maent yn teimlo am y man penodol hwnnw.
- Gofynnwch i'r plant pam eu bod wedi ymateb fel y gwnaethon nhw.



# Tocynnau hapus a thrist

## Defnyddiwch y gweithgaredd hwn i

- nodi blaenoriaethau plant o ran amgylcheddau cyfredol
- arolygu safbwyntiau ar nodweddion cyfredol yn yr amgylchedd
- nodi nodweddion, eitemau neu weithgareddau sy'n bwysig i'r plant

## Beth fyddwch ei angen

- cynhwysyddion â label wyneb hapus neu drist (gweler dros y dudalen)
- eitemau y gellir eu defnyddio fel tocynnau fel concyrs, moch coed bach, cregyn, cerrig bach, botymau neu ddarnau chwarae (byddwch yn ofalus o berygl tagu gyda phlant bach iawn)




## Beth ddylech ei wneud

- gosodwch y cynhwysyddion, un gyda label hapus, ac un gyda label trist, mewn mannau allweddol amrywiol yn eich man awyr agored (nodwch ar y cynhwysyddion ymhle rydych wedi'u gosod). Efallai y byddwch am eu gosod ger mannau penodol yn y man presennol fel y pwll tywod neu mewn mannau mwy fel patio neu lecyn o wair.
- gofynnwch i'r plant osod tocyn yn y llestr sy'n cynrychioli sut maent yn teimlo am fan neu nodwedd benodol. Efallai y byddwch am ofyn i'r plant pam eu bod yn teimlo fel hyn a recordio eu hatebion.
- Ar ddiwedd yr ymarfer, cyfrwch y tocynnau a chofnodi'r atebion ar daflen grynhoi (mae hyn yn ymarfer mathemateg gwych ar gyfer y plant hefyd).
- Drwy ddefnyddio tocynnau ar gyfer bechgyn/merched, neu blant dan/dros bedair oed, gallwch bennu blaenoriaethau'r plant yn ôl rhyw neu oedran. Bydd hyn yn rhoi gwybodaeth fanylach i chi a fydd yn eich cynorthwyo i gynllunio ar gyfer y dyfodol.



Defnyddiwch y rhain i greu eich llestri pleidleisio. Efallai y byddwch am greu trydydd llestr gydag wyneb niwtral i alluogi plant nad oes ganddynt flaenoriaeth gadarn am nodwedd neu fan fynegi eu hunain.



# Defnyddio: profiadau plant

Sut mae chwarae yn yr awyr agored wedi'i gynnwys yn eich cynlluniau cwricwlwm?

A ydych yn cynnig cyfleoedd chwarae dan do-awyr agored rhydd? Drwy'r amser Weithiau Na

Os na, beth yw'r prif rwystrau i chwarae'n rhydd?

A yw bechgyn a merched yn defnyddio'r un faint o'r man awyr agored? Ydynt Nac ydynt

Os nac ydynt, rhowch fanylion cryno

A yw'r lle'n groesawgar ac yn addas ar gyfer plant? Ydy Nac ydy

A oes dillad priodol ar gael i blant ar gyfer gwahanol dywydd?

Gwlyb Eira Gwyntog Heulog Oer Poeth

Sut mae plant yn cael eu hannog i gymryd risgiau a herio eu hunain yn yr awyr agored?

Pa fathau o ddysgu a chwarae a ddarperir ar gyfer yr awyr agored yn eich lleoliad?

Ar sail yr uchod a'ch ymgynghoriadau â phlant, staff a rhieni/cynhalwyr, crynhowch eich blaenoriaethau ar gyfer ehangu profiadau plant yn yr awyr agored.

# Cynllun: nodweddion ffisegol

*Tua* beth yw maint eich man awyr agored?

Pa siâp ydyw?

A yw'r man awyr agored yn agos iawn i'r tu mewn? Ydy Nac ydy
A yw'r fynedfa'n cael ei rhannu? Ydy Nac ydy

A yw pawb sy'n defnyddio'ch man awyr agored yn gallu cael mynediad hawdd iddo? Ydy Nac ydy

A yw'r lle'n cael ei ddefnyddio at ddibenion heblaw dysgu drwy chwarae? Ydy Nac ydy Os ydy, beth?

Canran o *tua* faint (%) o bob un o'r arwynebeddau hyn yw'ch man awyr agored? Rhowch 0 os nad oes gennych un.

% Tarmac % Concrit % Gwair % Gro % Rhisgl % Rwber
% Tywod % Planhigion % Arall (nodwch)

A oes unrhyw lwybrau arwyneb caled? Oes Nac oes Beth ydynt?

A oes gan eich man awyr agored gatiau a ffiniau diogel? Oes Nac oes
A ydynt mewn cyflwr da? Ydynt Nac ydynt A ydynt yn hardd i'r llygad? Ydynt Nac ydynt
O ba ddeunyddiau mae'r gatiau a'r ffiniau wedi'u gwneud?

A oes golygfeydd hardd i *mewn* ac *allan* o'ch man awyr agored? Golygfeydd o'n hadeilad Oes Nac oes
Golygfeydd o ffyrdd/llwybrau cyfagos Oes Nac oes Golygfeydd o'r man awyr agored Oes Nac oes

Pa nodweddion chwarae sefydlog (parhaol) sydd ar gael yn yr awyr agored? Ym mha gyflwr y mae'r rhain (e.e. gwael, iawn, da, rhagorol)? Ychwanegwch unrhyw nodweddion sefydlog eraill sydd gennych neu a ddefnyddir yn yr awyr agored.

| | |
|---|---|
| Dŵr | Dringo |
| Tap | Tywod |
| Tyfu | |
| | |

Pa adnoddau chwarae eraill sydd ar gael ar gyfer yr awyr agored?

A yw plant yn gallu dewis yr adnoddau hyn eu hunain? Ydynt Nac ydynt

A oes unrhyw gysgod yn y man awyr agored? Oes Nac oes Beth sy'n rhoi cysgod?

A oes unrhyw loches arall? Oes Nac oes Beth sy'n rhoi lloches?

A oes unrhyw seddi? Oes Nac oes Ble mae'r plant yn eistedd, yn anffurfiol?

A oes unrhyw blanhigion, llwyni neu goed yno? Oes Nac oes Os oes, ymhelaethwch.

**Eich man 'pontio'** Y man pontio yw'r gofod pwysig sy'n cysylltu tu mewn a'r awyr agored; fel arfer mae'n agos iawn i brif allanfa'r adeilad i'r gerddi, ac mae'n lle i blant ac oedolion gymryd rhan mewn gweithgareddau distawach. Bydd plant yn defnyddio'r lle hwn i benderfynu ble i chwarae, gyda phwy i chwarae neu gyda pha adnoddau. Mae'n darparu byffer rhwng y gweithgareddau sy'n gallu bod yn wyllt yn yr awyr agored a'r amgylchedd cyfarwydd dan do ac yn galluogi plant i arsylwi a gwerthuso'r gofod cyn penderfynu a ydynt am ei ddefnyddio..

A oes gan eich lleoliad fan pontio? Oes Nac oes

Os oes, atebwch y cwestiynau eraill yn yr adran hon, gyda manylion ychwanegol isod os yw hynny'n bosibl.

A oes seddi? Oes Nac oes

A yw plant yn gallu cael mynediad i'r fan hon ar eu pen eu hunain? Sut? Ydynt Nac ydynt

A oes to neu gysgod yno? Oes Nac oes

A oes man storio annibynnol ar gael? Oes Nac oes

Ar sail yr uchod, crynhowch rai o'r blaenoriaethau ar gyfer newid nodweddion ffisegol eich lleoliad. Defnyddiwch hyn ochr yn ochr â'ch ymgynghoriadau â rhieni/cynhalwyr, plant a staff yn eich brîff cynllunio a'ch cynllun datblygu.

# Rheoli: trefniadau, staff a pholisïau

A oes unrhyw fannau awyr agored nad ydych yn eu defnyddio? ○ Oes ○ Nac oes Os oes, pam?

A yw'r lle yn cael ei fandaleiddio? ○ Ydy ○ Nac ydy Os ydy, beth sy'n digwydd a pha mor aml?

A yw'r lle yn dioddef yn sgil ymweliadau gan anifeiliaid? ○ Ydy ○ Nac ydy Os ydy, beth yw'r canlyniadau?

Faint o amser mae'n ei gymryd fel arfer i baratoi (a chadw) y man awyr agored?

A ydych wedi codi arian yn benodol ar gyfer chwarae yn yr awyr agored? ○ Do ○ Naddo
Os ydych, sut ddefnyddiwyd yr arian?

Pwy sy'n cynnal a chadw'ch man awyr agored?

**Rôl yr oedolyn yn eich lleoliad**

A oes unrhyw un yn y lleoliad wedi derbyn hyfforddiant ar chwarae yn yr awyr agored? Rhowch fanylion.

Yn gyffredinol, wrth weithio yn yr awyr agored, a yw'ch tîm:

yn hyderus yn yr hyn y maent yn ei wneud? ○ Ydy ○ Nac ydy

yn frwdfrydig am fod yn yr awyr agored? ○ Ydy ○ Nac ydy

Sut mae'ch tîm yn cynorthwyo plant i ddysgu a chwarae yn yr awyr agored, e.e. cynllunio, arsylwi ac ati?

A oes unrhyw rieni/cynhalwyr yn cynorthwyo gyda sesiynau chwarae yn yr awyr agored?
○ Oes ○ Nac oes Os oes, rhowch fanylion.

**Polisïau a gweithdrefnau**

Pwy sy'n berchen safle eich lleoliad?

A oes unrhyw amodau penodol sy'n cyfyngu ar eich defnydd o'r safle?

Pa rai o'r polisïau hyn sydd gennych ar hyn o bryd? Ychwanegwch unrhyw bolisïau eraill sy'n crybwyll, neu sy'n berthnasol i'r awyr agored.

- Chwarae yn yr awyr agored
- Iechyd a diogelwch
- Risgiau a heriau
- Damweiniau
- Eraill

A yw awyr agored yn cael ei grybwyll yn benodol mewn unrhyw ddisgrifiadau swyddi staff? Ydy Nac ydy
Os ydy, rhowch fanylion cryno.

A yw chwarae yn yr awyr agored yn cael ei grybwyll yn eich pecyn neu bamffled i rieni/cynhalwyr? Ydy Nac ydy Os ydy, rhowch fanylion cryno.

Ar sail yr uchod a'ch arsylwadau o blant ac ymgynghoriadau â staff a rhieni, crynhowch eich blaenoriaethau ar gyfer newid eich polisïau a'ch gweithdrefnau i gefnogi darpariaeth awyr agored i blant yn eich lleoliad.

# Cam 2
# Beth ydyn ni am ei gyflawni?

**Y cwestiwn sydd angen i chi ei ofyn yw 'beth fyddech ni'n hoffi gallu ei wneud y tu allan?' nid 'Beth fydden ni'n hoffi ei gael?' I ateb y cwestiwn bydd angen ystyried:**

- sut rydych chi eisiau defnyddio'ch man awyr agored
- cynllun eich man awyr agored
- sut y gallwch chi gefnogi'r gwaith o ddefnyddio a datblygu'ch man awyr agored drwy reoli.



Bydd meddwl am *wneud* nid *cael* yn eich cynorthwyo i ganfod ffyrdd amrywiol o gynnig profiadau awyr agored.

## Meddwl am ddefnydd

Beth ddylai plant allu cael profiad ohono, ei ddysgu a'i ddatblygu yn yr awyr agored? Canolbwyntiwch ar sut y gellir cyflwyno'r saith Maes Dysgu yn yr awyr agored, gan roi llawn cymaint o ystyriaeth i gynllunio a darpariaeth barhaus, ddatblygedig ac â ffocws ar gyfer gweithgareddau awyr agored ag y gwnewch yn achos gweithgareddau dan do.

Er enghraifft, gall amgylchedd a gynlluniwyd yn dda ac sy'n llawn adnoddau annog gweithgareddau a arweinir gan blant. Felly dylech fynd ati i gynnig cymysgedd o brofiadau uniongyrchol (fel tyfu) a digon o gyfleoedd chwarae (fel creu safle adeiladu).

Bydd cyfeirio at eich adnodd **Archwilio eich ymarfer a'ch darpariaeth** (tudalennau 1.7-1.11) yn eich helpu i nodi a blaenoriaethu'r agwedd hon ar y gwaith datblygu.

## Meddwl am y cynllun

Bydd meddwl am *wneud* nid *cael* yn eich annog i ystyried amryw o ffyrdd o gynnig profiadau i blant ifanc, yn eich cynorthwyo i ehangu eich darpariaeth awyr agored o flwyddyn i flwyddyn ac yn eich helpu i osgoi gwastraffu arian ar brynu offer nad yw'n diwallu eich anghenion mewn gwirionedd, neu sy'n anymarferol neu'n anhyblyg. Meddyliwch am:

- sut hoffech chi i'ch man awyr agored edrych a theimlo?
- pa fathau o fannau ac adnoddau fydd eu hangen i gefnogi beth rydych chi am ei wneud y tu allan? Efallai eich bod chi eisiau ardal ar gyfer chwarae egnïol, man tyfu, lle tawel neu ardal ddarllen, man ar gyfer palu ac archwilio, neu le ar gyfer profiadau dosbarth cyfan.
- a ydych angen aildrefnu'ch man awyr agored yn llwyr, neu a allwch chi wneud newidiadau bach i fannau penodol?



Nid oes gan **Feithrinfa Pipsqueaks** lawer o le awyr agored – ychydig mwy nag ale – felly maent wedi canolbwyntio ar gyfoethogi profiadau dysgu plant mewn mannau cyhoeddus lleol, fel y parc, a darparu dysgu yn yr awyr agored ar y safle. Mae ymrwymiad a brwdfrydedd staff wedi bod yn hanfodol wrth gynnal mynediad plant ac ansawdd eu profiadau yn yr awyr agored. Roedd y staff yn arsylwi'r hyn yr oedd plant yn hoffi ei wneud o dan do, ac yn y parc, ac yna'n defnyddi'r wybodaeth hon fel sail i'w cynlluniau. Bellach, mae gan blant fynediad rhydd i'r ale o gefn yr adeilad, ac mae staff wedi gwneud defnydd llawn dychymyg o'r wal fertigol i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd dysgu.

Meddyliwch sut y gallwch ddiwallu anghenion pob plentyn heb amharu ar ddiogelwch, mynediad na mwynhad plant eraill.

- Arbrofwch gyda rhannu'r ardal yn barthau (gweler gweithgaredd **Rhannu'ch mannau awyr agored yn barthau** tudalen 2.3) – bydd hyn yn eich helpu i weld lle dylid annog mathau gwahanol o weithgarwch, a sicrhau bod man awyr agored yn cael ei defnyddio i'w llawn botensial yn hytrach na dim ond ei llenwi ag offer.
- Treuliwch amser yn arbrofi gyda'r lleoliad. Er enghraifft, os nodwyd bod cysgod yn flaenoriaeth efallai y gallech dreulio wythnos neu ddwy'n creu cysgod dros dro – fel benthyca parasol gardd neu hongian blanced neu ddwy rhwng coed – mewn gwahanol lefydd.
- Gofynnwch am farn y plant wrth ystyried sut fydd y lle yn edrych – o benderfynu ar fathau gwahanol o seddi i ddeall lle byddai'r man gorau i gael pwll dŵr glaw.
- Edrychwch ar leoliadau'r blynyddoedd cynnar a mannau awyr agored eraill i gasglu syniadau ynglŷn â'r ffordd rydych chi eisiau i'ch lle edrych a theimlo – dylai'ch cynghorwr blynyddoedd cynnar neu berson cyswllt allu eich helpu.
- Ymwelwch â chanolfan arddio gyda'r plant i edrych ar opsiynau plannu posibl a chael cyngor arbenigol am ddim.

## Meddwl am reoli

Sut bydd amcanion, gwerthoedd a threfniadaeth eich lleoliad yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu a defnyddio man awyr agored? Bydd canlyniadau'r gweithgaredd **Archwilio'ch ymarfer a'ch darpariaeth** (tudalennau 1.7-1.11) yn eich helpu i lunio rhestr wirio o'r newidiadau y bydd angen eu gwneud i bolisïau, arferion ac agweddau.

Mae angen i bawb sydd â chyfrifoldeb am gyflenwi adnoddau neu oruchwylio dysgu a chwarae awyr agored yn y lleoliad ddeall goblygiadau hirdymor unrhyw newidiadau ffisegol. Gallent gael effaith ar gost y gwaith o ofalu am y tu allan neu ei wneud yn fwy cymhleth. Er enghraifft, os ydych chi'n gosod pwll tywod, pa mor aml fydd angen glanhau, adnewyddu a/neu newid y tywod? Faint fydd hyn yn ei gostio? Pwy fydd yn gwneud y gwaith? Os ydych chi'n awyddus i sicrhau bod eich man awyr agored mor hawdd i'w chynnal a'i chadw â phosibl, mae angen i chi feddwl hefyd ynglŷn ag ailgyflenwi, newid a chynnal a chadw adnoddau.

Cofiwch gyfeirio at adroddiad arolwg diweddaraf eich lleoliad am unrhyw bwyntiau i weithredu arnynt, yn ogystal â rhoi gwybod i'ch pwyllgor neu gorff llywodraethu am ddatblygiadau'r prosiect.

Hefyd mae angen ystyried anghenion datblygu staff – a fyddai'n well pe bai un aelod o'r tîm yn arwain ar ddysgu awyr agored neu a fyddai'n fwy priodol i'r tîm cyfan fod â rolau cyfartal? Beth bynnag a benderfynwch, mae gwneud yn siŵr bod gan bawb y sgiliau ar gyfer y gwaith yn bwysig er mwyn gallu defnyddio'r awyr agored yn llwyddiannus.

**Gallwn helpu** Trwy ein cynllun aelodaeth gall LTL Cymru roi

- mwy o gyngor manwl a gweithgareddau i gynnwys y plant yn y gwaith cynllunio
- astudiaethau achos o bob rhan o'r DU i'ch ysbrydoli

I wybod mwy ewch i **www.ltl-cymru.org.uk.**




# Rhannu'ch mannau awyr agored yn barthau

Gall rhannu'ch mannau awyr agored yn barthau fod yn ymarfer defnyddiol. Defnyddiwch y gweithgareddau canlynol i ganfod:


- pa brofiadau neu weithgareddau ddylid eu cadw ar wahân.
- a ddylid cynnal gweithgareddau mwy swnllyd ymhell o adeiladau.
- ymhle y dylid lleoli cyfleusterau storio.
- a ellid defnyddio rhai mannau ar gyfer sawl diben – er enghraifft, a all man eistedd fod yn addas hefyd i rieni gasglu eu plant? A fydd hyn yn effeithio ar ei leoliad?
- a oes angen i bobl groesi neu symud o gwmpas y man awyr agored, efallai i gael mynediad i fannau eraill o'r safle.

**Gweithgaredd dan do i oedolion** Ewch ati i gopïo a labelu'r siapiau hirgrwn dros y dudalen. Ar ôl eu torri defnyddiwch nhw gyda'ch cynllun sylfaenol (gweler tudalen 1.1) i benderfynu ble fyddai orau i leoli'r gwahanol barthau yn eich man awyr agored (gweler enghraifft isod). Rhowch gynnig ar wahanol drefniadau tan i chi lunio cynllun sy'n plesio pawb, gan gofio nodi neu dynnu llun o'r trefniadau amrywiol. I gynnal ymarfer tebyg â phlant, defnyddiwch ddelweddau cynrychiadol – er enghraifft, beic ar gyfer y man corfforol, llyfr ar gyfer y man distaw.

**Gweithgaredd awyr agored i oedolion a phlant** Nodwch fannau ar gyfer gwahanol weithgareddau gyda beth bynnag sydd gennych wrth law – cadeiriau, rhaff, teils carped, bocsys. Ar ôl penderfynu ar fras leoliadau eich parthau, brasluniwch nhw ar gopi o'ch cynllun sylfaenol. Cofiwch dynnu lluniau yn y broses.



Copïwch a thorrwch y siapiau hirgrwn hyn, eu labelu a’u defnyddio i’ch helpu i benderfynu ble y dylid lleoli pob gweithgaredd.



# Cardiau gweithgaredd

**Gweithgaredd oedolion** Ewch ati i lungopïo, torri a defnyddio'r cardiau hyn fel arweiniad i sbarduno trafodaeth am yr hyn yr ydych am allu ei wneud yn eich man awyr agored. Efallai y byddwch am ychwanegu rhai eich hun ar ôl i chi gwblhau'ch archwiliad. Gallech hefyd eu rhoi mewn trefn i helpu i flaenoriaethu'r ffordd y mae'ch man yn cael ei ddatblygu a'i ddefnyddio. Byddwch yn greadigol – os nad oes llawer o le, efallai y byddwch am ddefnyddio'ch safle ar gyfer gweithgareddau creadigol distawach; ar gyfer gweithgareddau mwy corfforol, swnllyd, gallech fynd i'r parc lleol.

**Byddwch yn llawn cyffro, egni, mentrus a swnllyd**

**Byddwch yn gyfrifol, yn annibynnol**

**Dychmygwch, breuddwydiwch, dyfeisiwch...**

**Cuddiwch, ymlaciwch, byddwch yn dawel eich meddwl a myfyrio**

**Ymchwiliwch, archwiliwch, darganfyddwch, arbrofwch**

**Rhedwch, dringwch, pedalwch, taflwch!**

**Siaradwch, cydweithiwch, gwnewch ffrindiau!**

**Creu, adeiladu, gwneud cerddoriaeth, mynegi...**

**Cloddiwch, tyfwch, meithrinwch...**

**Adrodd straeon, canfod patrymau, gwneud marciau**

# Cam 3
# Sut mae cyrraedd y nod?

**Unwaith y byddwch wedi gweithio trwy 'Ble rydyn ni nawr?' a 'Beth ydyn ni am ei gyflawni?', ac wedi rhestru anghenion eich lleoliad, byddwch yn gallu penderfynu ar newidiadau a'u cynllunio, yn hyderus y byddwch yn treulio'ch amser ac yn gwario'ch arian yn ddoeth. Mae'r cam hwn yn cynnwys:**

- penderfynu ar elfennau'r cynllun
- paratoi brîff ar gyfer y cynllun
- penderfynu ar gynllun datblygu
- sefydlu tîm rheoli prosiect



Cyfleu a defnyddio naws arbennig yr awyr agored – mae'n wahanol a dyna pam ei fod yn bwysig i blant.

## Penderfynu ar elfennau'r cynllun

Nawr gallwch ddechrau meddwl am ffyrdd o gyfleu a defnyddio naws arbennig yr awyr agored . Mae'n wahanol – a dyna pam ei fod yn bwysig i blant.

### Parth pontio

Y parth pontio yw'r ardal rhwng y tu mewn a'r awyr agored, man lle gall plant ac oedolion ystyried gweithgaredd neu ei adolygu, arsylwi ar eraill a gwneud dewisiadau heb fod 'o dan draed'. Mae'n ardal hollbwysig gan ei bod yn hwyluso dysgu a chwarae awyr agored. Dylech geisio cynnwys:

- rhesel isel ar gyfer cotiau/dillad glaw a silff ar gyfer esgidiau ger y drws i'r tu allan i gefnogi annibyniaeth y plant a gwneud symud rhwng man dan do ac awyr agored y ddarpariaeth yn hwylus. Gellid trefnu esgidiau glaw ar rodenni hoelbren neu wedi'u pegio fesul pâr.
- dyfais i gau'r prif ddrws (drysau) yn araf i'w atal rhag cau'n glep neu aros ar agor mewn tywydd oer.
- mat i'r plant lanhau eu hesgidiau arno.
- canopi dros ran awyr agored y parth pontio i roi mwy o le i symud ac i arsylwi, a hefyd i roi cysgod ar gyfer chwarae awyr agored ar ddyddiau oerach, gaeafol a gwyntog.
- llen PVC ddiwydiannol fel bod modd gadael drws allanol ar agor heb adael yr holl aer cynnes i gyd allan.





## Ffensys

Yn ogystal â'r brif ffens o amgylch y lleoliad, sydd â photensial mawr, mae'n werth ychwanegu wynebau fertigol eraill drwy ddefnyddio delltwaith, rhwyll gardd a ffensys pren isel. Gellir gwneud ffensys o wahanol ddeunyddiau er mwyn creu effeithiau gwahanol, a gellir defnyddio paneli ffensio i greu parthau a chilfachau ar gyfer dysgu. Hefyd, mae modd defnyddio ffensys:

- fel mannau i glymu rhaffau er mwyn creu leiniau dillad a ffeuau.
- i hongian tuniau ac offer cegin ar gyfer arbrofi gyda synau.
- ar gyfer gwehyddu.
- i osod cafnau a phibau arnynt er mwyn archwilio dŵr yn symud ar raddfa fawr.
- i greu arwynebau mawr ar gyfer paentio a chreu marciau ar raddfa fawr – defnyddiwch gynfasau cotwm, darnau mawr o haenau plastig neu bapur leinio waliau wedi'u pegio i'r ffens.
- i osod arwynebau eraill arnynt fel plastig gwrymiog neu bren haenog morol wedi'i orchuddio â farnais ar yr ochr arall fel ei fod yn dal dŵr (bachwch y byrddau dros y ffens gan ddefnyddio bachau mawr a ddefnyddir ar gyfer hongian beiciau – bydd hyn yn ei gwneud hi'n bosibl i chi fynd â'r byrddau i mewn gyda'r nos). Paentiwch yr wyneb sy'n mynd i gael ei farcio gyda phaent emwlsiwn neu baent bwrdd du.



## Waliau

Fel gyda ffensys, gallwch ddefnyddio waliau ar gyfer creu marciau, gosod pethau arnynt neu chwarae â pheli. Gallwch eu defnyddio hefyd ar gyfer hongian basgedi crog i dyfu ffrwythau a llysiau, fel tomatos a mefus. Bydd system pwli, sydd ar gael o ganolfannau garddio, yn eich galluogi i ostwng y basgedi i'w dyfrio.

Gallech ystyried gosod wal gyda gafaelion ar gyfer y traed a'r dwylo er mwyn i'r plant symud ar draws wyneb y wal. Gallant fod ychydig gentimedrau oddi ar y ddaear, fel nad yw'r plant yn cwympo o uchder mawr (60cm yw'r mwyaf y gellir cwympo cyn bod gofyn gosod llawr diogelwch). Maent yn llesol iawn i ddatblygiad corfforol yn gyffredinol a chwarae dychmygus (i sicrhau diogelwch, pobl broffesiynol yn unig ddylai osod y wal).

Mae murluniau parhaol ar eich waliau'n ffordd wych o wneud eich ardal awyr agored yn fwy deniadol ond byddant hefyd yn golygu na allwch wneud defnydd pwysig o waliau'ch lleoliad.

## Tarmac a cherrig pafin

Mae angen i bob man awyr agored gynnwys wyneb cadarn i blant allu chwarae'n egnïol – ar feiciau er enghraifft – gyda lle i symud yn ddirwystr dros bellterau. Mae tarmac a cherrig pafin hefyd yn cynnig wyneb eang i blant allu tynnu lluniau â sialc, paent, neu â chan dŵr pig main ac i archwilio siapiau a mannau (neu gysgodion hyd yn oed). Mae wynebau cadarn, llyfn yn wych hefyd ar gyfer archwilio sut y mae dŵr yn symud ac yn rhedeg i lawr llethr, neu ar gyfer creu pyllau dŵr – gan ychwanegu paent efallai – i blant gael beicio drwyddynt.

**Gallwn helpu** Drwy ein cynllun aelodaeth gall Learning through Landscapes Cymru roi gwybodaeth i chi am gyflenwyr, gan gynnwys y llefydd gorau am ostyngiadau sylweddol. I wybod mwy, ewch i **www.ltl-cymru.org.uk.**

## Llethrau, graddiannau a grisiau

Mae plant ifanc yn hoff iawn o fynd i fyny'n uchel er mwyn gweld mwy ar eu byd. Mae llethrau a grisiau hefyd yn helpu plant i ddatblygu sgiliau symud bras, ac yn rhoi llawer mwy o amrywiaeth na gofod gwastad i blant o ran symudiadau a gweithgareddau. A bydd plant ifanc yn arbennig yn cael eu cymell i ddysgu sut i ddringo grisiau er mwyn edrych i lawr ar ardal – gall codi ond ychydig droedfeddi wneud gwahaniaeth mawr i bersbectif plentyn ifanc. Mae grisiau wedi'u torri i mewn i lethr yn ychwanegu ffordd arall o ddringo goledd. Hefyd, mae grisiau yn rhywle y gall plant eistedd, a chânt eu defnyddio i gymdeithasu a chwarae rôl.

## Llwyni a phlanhigion

A oes gan eich lleoliad lwyni digon mawr i blant guddio ynddynt? Mae cilfachau a chuddfannau'n rhoi lle arbennig i blant beidio â bod mewn cysylltiad uniongyrchol ag oedolion a lle gallant feithrin ymdeimlad o annibyniaeth. Mae hyn hefyd yn wir am y mannau y tu ôl i siediau neu ger y brif ffens. Ystyriwch gael gwared ar blanhigion peryglus fel rhosod a phlannu rhai y gall y plant chwarae ynddynt yn ddiogel.

## Cerrig sarn a mannau i neidio oddi arnynt

Yn ôl yr arbenigwraig ar y cyfnod meithrin, Margaret McMillan, mae 'mannau i neidio oddi arnynt' yn elfen hanfodol o amgylchedd awyr agored ar gyfer plant ifanc. A ydych chi'n cofio cerdded ar hyd waliau isel a neidio oddi arnynt yn blentyn? Chwiliwch am gyfle i wneud defnydd o nodweddion yn eich gofod i alluogi plant i feistroli'r sgil corfforol pwysig a llawn hwyl hwn. Mae llwybrau wedi'u gwneud o gerrig sarn yn apelio'n fawr – a gellir eu creu drwy ddefnyddio eitemau symudol fel haenau o fonion coed – a gall mannau cerdded sefydlog fod yn llwybrau cyffrous o un parth i'r llall.

## Dŵr

Gosodwch gyflenwad dŵr y tu allan er mwyn i'r plant allu defnyddio dŵr sy'n llifo. Ar gyfer dyfrio planhigion y tu mewn a'r tu allan, gosodwch gasgen ddŵr.

## Storio

Er mwyn gwneud defnydd llawn o offer ac adnoddau awyr agored, bydd angen i oedolion a phlant allu cael gafael arnynt heb lawer o ymdrech. Efallai bod angen i chi ystyried cael mwy nag un uned storio (er enghraifft, un i storio teganau olwynion a/neu adnoddau mawr yn unig, ac un arall ar gyfer adnoddau llai fel eitemau ar gyfer darpariaeth barhaus). Dylid trefnu'r man storio fel bod modd i blant dynnu pethau allan eu hunain, fel y bo angen – a'u rhoi yn ôl wedyn.

Bydd y cynhwysydd cywir yn ei gwneud hi'n haws cario adnoddau o'r man storio i'r man defnyddio. Ystyriwch flychau ar olwynion, bagiau a thybiau â handlenni, cratiau â chaeadau a throlïau â hambyrddau. Hefyd, gallai defnyddio gwarbaciau eich helpu i symud adnoddau o gwmpas eich safle, neu i fynd oddi ar y safle ar ymweliad â'r parc neu'r siopau lleol.

Bydd plant wrth eu bodd yn cael bod yn gyfrifol am offer. Bydd labelu cynwysyddion storio, yn enwedig â lluniau o'r cynnwys, yn helpu i sicrhau bod pethau'n hawdd eu canfod ac yn cael eu dychwelyd i'r lle cywir. Gellir defnyddio hyn fel ffordd ystyrlon o feithrin annibyniaeth plant a'u dealltwriaeth o bwrpas ysgrifennu.



## Datblygu brîff ar gyfer y cynllun

Mae ysgrifennu brîff ar gyfer y cynllun yn hollbwysig. Gallwch ei ddefnyddio wedyn i gyfleu eich cynlluniau i bawb a fydd yn defnyddio eich ardal awyr agored a mesur eich llwyddiant yn ei erbyn yn nes ymlaen. Bydd hefyd yn helpu gweithwyr proffesiynol allanol – fel cynllunwyr neu benseiri tirwedd – i ddeall eich gofynion.

Ar dudalen 3.8 mae **Brîff gwag ar gyfer y cynllun**, lle gallwch grynhoi'ch canfyddiadau hyd yn hyn. Cofiwch gynnwys:

- gwybodaeth gefndir am eich lleoliad a'r man awyr agored.
- canlyniadau a ragwelir, amcanion a beth y gobeithiwch ei gyflawni.
- y bobl fydd yn defnyddio'r man awyr agored ac yn cyfrannu at y gwaith.
- canlyniadau eich ymgynghoriadau, pwy gafodd eu cynnwys, sut, a beth gafodd ei ddweud.
- nodweddion allweddol rydych chi am eu cynnwys yn y cynllun ffisegol.
- goblygiadau cyllidebol.
- terfynau amser neu gyfyngiadau eraill.

## Penderfynu ar gynllun datblygu

Unwaith y bydd gennych frîff ar gyfer y cynllun, lluniwch gynllun gweithredu ar gyfer eich gwaith. Dylai hwn:

- rannu'r prosiect yn dasgau hawdd eu trin.
- rhoi amseriad bras, nid yn unig i roi syniad i chi pryd fydd y gwaith wedi'i orffen ond hefyd i sicrhau na fydd eich cynlluniau'n gwrthdaro â digwyddiadau eraill yn eich lleoliad.
- dyrannu tasgau – er enghraifft, pwy sy'n gyfrifol am beth, gan ystyried arbenigedd a faint o amser sydd ganddynt i'w roi.
- costau ar gyfer pob tasg – bydd hyn yn sicrhau bod eich prosiect i wella eich mannau awyr agored wedi'i gostio'n gywir a'ch bod wedi gosod targedau realistig ar gyfer codi arian.

**Gallwn helpu** Mae gan Learning through Landscapes Cymru wybodaeth am ffynonellau cyllid, gyda llawer ohonynt yn benodol i Gymru. I wybod mwy ewch i **www.ltlcymru.org.uk**



Roedd **Ysgol Gynradd Pontsenni, Powys** am greu man a oedd yn galluogi i blant yn y Cyfnod Sylfaen archwilio a darganfod byd natur eu hunain. Dewisodd yr ysgol lecyn gwair mawr i'w ddatblygu. Mae ffens gadarn bellach yn sicrhau preifatrwydd, ac mae llwybr llechi troellog yn arwain at 'ystafelloedd' gyda gwahanol themâu. Mae yna fan chwarae gyda ffrâm ddringo fach, llithrenni a thwnnel plastig. Mae seddi wedi'u gosod ac mae dwy goeden griafol yn cynnig cysgod. Mae'r man hefyd yn cynnwys man plannu a chloddio bywyd gwyllt lle gall plant fynd ati i adnabod rhywogaethau. Cyfranodd y disgyblion gydol y gwaith, o gynllunio'r prosiect a dewis cyfarpar i gyfrannu at y gwaith o gloddio a phlannu. Cyfranodd rhieni a ffrindiau hefyd gyda rhoddion fel planhigion, potiau, clychau gwynt a melinau gwynt.

## Sefydlu tîm rheoli prosiect

Dylai hwn gynnwys staff, rheolwyr a chymaint o rieni/cynhalwyr ac aelodau o'r gymuned ag sy'n bosibl fel bod gennych amrywiaeth o sgiliau, gwybodaeth a phrofiad i fanteisio arnynt ar gyfer pob agwedd ar eich prosiect i ddatblygu tir eich lleoliad. Gall rhieni/cynhalwyr helpu mewn llawer o ffyrdd:

- fel cefnogwyr y prosiect gallant ddarparu deunyddiau, helpu i godi arian neu fynychu digwyddiadau, fel diwrnodau garddio. Mae'n bosibl y byddant yn dysgu sgiliau newydd wrth roi help llaw.
- fel partneriaid yn y prosiect gallent gyfrannu'n llawn fel aelodau o'r pwyllgor rheoli a rhannu'r gwaith o wneud penderfyniadau gyda staff a llywodraethwyr.
- mewn rhai achosion, gallai rhieni/cynhalwyr gymryd rheolaeth, trwy Gymdeithas Rhieni ac Athrawon o bosibl, dros brosiect tir yr ysgol, a gwneud a gweithredu penderfyniadau a bod yn atebol i'r pennaeth (neu awdurdod arall) am y prosiect.

## Cynnwys rhieni/cynhalwyr a'r gymuned

Bydd gan rieni/cynhalwyr a phobl eraill amrywiaeth o sgiliau a allai helpu'ch prosiect. Yn eich cymuned gallech ddod ar draws, er enghraifft, pobl i godi arian, bricwyr, pobl i ysgrifennu llythyrau, ffotograffwyr, garddwyr, artistiaid neu bobl i wneud y te (ond cofiwch mai'r lleoliad sy'n gyfrifol am iechyd a diogelwch ar y safle, a dim ond gweithwyr medrus ddylai wneud gwaith arbenigol fel gosod brics).

Bydd gofyn i rieni/cynhalwyr lenwi ffurflen archwiliad sgiliau yn eich helpu i ganfod pa sgiliau sydd ganddynt a'u hannog i gyfrannu. Wrth ysgrifennu eich archwiliad sgiliau:



- gofalwch ei fod yn hawdd i'w ddarllen a'i lenwi. Defnyddiwch flychau ticio a lluniau lle bo'n bosibl, ac eglurwch yn glir beth yw nodau ac amcanion y prosiect.
- nodwch pa sgiliau fyddai'n ddefnyddiol i chi – er enghraifft garddio, paentio, codi arian, gwneud te a choffi, ysgrifennu llythyrau.
- pwysleisiwch nad oes angen gwybodaeth arbenigol nag ymrwymiad mawr ar gyfer y rhan fwyaf o'r tasgau a'ch bod yn croesawu pob math o gymorth, gan gynnwys help i wneud y te, cyfrannu planhigion, cymryd rhan mewn digwyddiad noddi neu 10 munud o chwynnu wrth aros i'r plant ddod o'r ysgol.
- ystyriwch y gwahanol adegau o'r dydd y gallai pobl fod ar gael. Rhowch gyfle i gymryd rhan yn ystod y dydd, ar ôl ysgol ac ar benwythnosau. Trefnwch ddigwyddiadau unigol yn ogystal â gweithgareddau rheolaidd.

Hefyd mae angen rhoi cyfle i rieni/cynhalwyr rannu eu barn a'u syniadau am newid drwy arolwg a phroses ymgynghori. I wneud hyn, gallech drefnu cyfarfod agored i rieni/cynhalwyr, llunio holiadur neu osod blwch syniadau mewn lleoliad cyfleus yn yr adeilad. Bydd ennyn brwdfrydedd ymhlith y plant a gofyn iddynt annog eu rhieni/cynhalwyr i gyfrannu yn help hefyd.

## Dadansoddi risgiau/manteision

Mae cymryd risgiau a heriau yn brofiadau pwysig i blant ifanc, ac nid oes angen i amgylchedd awyr agored sy'n darparu cyfleoedd ar gyfer y mathau hyn o weithgareddau fod yn beryglus.

Bydd ymarfer a darpariaeth awyr agored sy'n caniatáu a chynorthwyo plant i ail-wneud gweithgareddau cyfarwydd – yn ogystal â chyfleoedd i roi cynnig ar sgiliau newydd – yn helpu iddynt brofi eu hyder, ffiniau a sgiliau. Mae hyn yn bwysig oherwydd efallai nad yw plant nad ydynt yn gallu mesur risgiau a heriau eu hunain yn gallu pennu eu galluoedd a'u ffiniau eu hunain. Gall amgylchedd awyr agored nad yw'n eu hysgogi arwain at ymddygiad gwael a phlant yn gwneud penderfyniadau byrbwyll.

Defnyddiwch asesiadau risg i bennu manteision gweithgaredd neu nodwedd. Yna, yn hytrach na chael gwared neu beidio â chynnwys gweithgaredd neu nodwedd, meddyliwch sut gellir annog plant i'w ddefnyddio'n ddiogel.

Gwahoddwch rieni/cynhalwyr sy'n poeni am risgiau i'w plant eu hunain i fan awyr agored eich lleoliad i siarad am eu plentyn. Bydd hyn yn rhoi'r cyfle i chi egluro manteision chwarae a dysgu yn yr awyr agored, a hefyd gasglu gwybodaeth bwysig am y plant yn eich lleoliad.



## Adnabod peryglon yn yr awyr agored

Mae yna beryglon o bob lliw a llun.

**Tirwedd meddal** Nodwch unrhyw blanhigion a allai achosi problemau – er enghraifft, mae ganddynt ddail miniog, maent yn wenwynig neu'n llidiog – a chael gwared arnynt neu eu torri. Dywedwch wrth y plant am ofyn cyn pigo aeron.

**Arwynebau** Chwiliwch drwy'r amser am beryglon baglu (pafin anwastad, grisiau wedi torri ac ati). Gwnewch waith atgyweirio yn ôl yr angen. Mae gan arwyneb mwy diogel oes benodol a bydd angen archwilio ei fod yn gallu gwrthsefyll effaith.

**Cyfarpar cyfredol** Trwsiwch unrhyw gyfarpar sydd angen.

**Mynediad i gerbydau brys** Gofalwch bod modd i gerbydau brys gael mynediad i bob man a bod y llwybrau'n cael eu cadw'n glir.

**Coed** Cadwch lygad am ganghennau wedi disgyn, twf isel neu beryglus a thwf gwreiddiau a allai achosi i rywun faglu. Gofynnwch am gyngor proffesiynol os oes angen.

**Ffiniau a pherimedrau** A yw ffensys a gatiau a gwrychoedd mewn cyflwr da? A ydynt yn ddiogel? A oes unrhyw fylchau?

**Nodweddion** Gofalwch bod unrhyw nodweddion dŵr yn cael eu diogelu. Dylai leiniau sychu dillad fod yn ddigon uchel i osgoi damweiniau.

**Storio** Gofalwch fod cyfarpar yn cael eu cadw/stacio mor ddiogel â phosibl a bod staff yn cael eu hyfforddi mewn trafod a chodi gwrthrychau mawr.

**Llwybrau a mannau gweithgareddau** Gofalwch fod pob llwybr yn cael ei gadw'n glir – gofynnwch i oedolion a phlant dacluso'n gyson.

**Ymwelwyr nos** Dylid cynnal archwiliadau dyddiol ar y tir i chwilio am faw anifeiliaid, stympiau sigaréts, poteli a chaniau, chwistrelli a graffiti.

**Llygredd aer** Gallai gosod rhwystrau ostwng mygdarth traffig. Gofalwch bod meddyginiaeth asthma plant wrth law.

**Mynedfeydd ac allanfeydd** Gofalwch fod drysau yn glir o beryglon baglu – defnyddiwch arwyddion, tâp ac ati lle mae angen. Gosodwch ddodrefn drws i leihau'r risg o ddal bysedd a gofalwch bod digon o seddi a man storio yn y man pontio.

# Adnabod peryglon yn yr awyr agored

| Perygl | Lefel | Posibilrwydd o niwed? | Pwy allai gael niwed? | Camau Gweithredu |
|---|---|---|---|---|
| Cangen wedi marw ar goeden | ✓ Uchel<br>Canolig<br>Tir<br>Dan y tir | Anaf i ben | Staff, plant ymwelwyr | Cysylltu â Meddyg Coed |
| | Uchel<br>Canolig<br>Tir<br>Dan y tir | | | |
| | Uchel<br>Canolig<br>Tir<br>Dan y tir | | | |
| | Uchel<br>Canolig<br>Tir<br>Dan y tir | | | |
| | Uchel<br>Canolig<br>Tir<br>Dan y tir | | | |
| | Uchel<br>Canolig<br>Tir<br>Dan y tir | | | |

# Taflen procio cof brîff y cynllun

**Amcanion y prosiect**

Er mwyn pennu amcanion y prosiect, mae angen i chi fod wedi sefydlu'r hyn sydd ei angen yn y lleoliad. Bydd y wybodaeth hon wedi'i chasglu o arolygon safle ac arsylwi plant yn chwarae. Gweler tudalen 3.4 hefyd.

**Ysgrifennu brîff ar gyfer y cynllun**

Ystyriwch sut gallwch gyflawni amcanion y prosiect. Mae mwy i hyn na gosod cyfarpar neu blannu coed yn unig. Dylech hefyd feddwl a yw'r staff angen cymorth neu hyfforddiant ychwanegol, a fyddai adnoddau dysgu ychwanegol yn fuddiol ac a oes angen newid polisïau i gefnogi'r newidiadau ffisegol a sicrhau eu bod yn llwyddiannus a chynaliadwy. Meddyliwch am yr hyn yr ydych am allu ei wneud.

# Cynllun datblygu

Ein hamcanion cyffredinol wrth wella'r man awyr agored yw:

**Defnyddio** Profiadau ar gyfer plant a'r cwricwlwm

| Rydym am | Pam? | Erbyn pryd? | Pwy? | Cost? |
|---|---|---|---|---|
| Gwella ein man dweud stori | Drwy greu cylch boncyffion | Pasg | Staff a rhieni | O £50 |

**Rheoli** Gwerthoedd, sefydliad, datblygu staff

| Rydym am | Pam? | Erbyn pryd? | Pwy? | Cost? |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

**Cynllunio** Newidiadau ffisegol

| Rydym am | Pam? | Erbyn pryd? | Pwy? | Cost? |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

# Cam 4
# Gwneud y newidiadau

**Gyda thystiolaeth o'ch gweithgareddau casglu gwybodaeth, dyluniadau manwl a chynllun datblygu, mae'n bryd dechrau gwneud – ac yna mwynhau – y newidiadau. Mae hyn yn cynnwys:**

- penderfynu pwy sy'n gwneud y gwaith
- creu cynllun rheoli a chynnal a chadw
- ar ôl cwblhau'r prosiect, dathlu
- ac i gloi, pwyso a mesur.



Ceisiwch gynnwys y plant gymaint â phosibl – mae eu barn yn bwysig ac maen nhw wrth eu bodd yn baeddu eu dwylo!

## Penderfynu pwy sy'n gwneud y gwaith

Natur y dasg i'w chwblhau fydd yn penderfynu a fyddwch yn gofyn i rieni/cynhalwyr a gwirfoddolwyr eraill i helpu neu'n cysylltu â chynllunydd gerddi a/neu bensaer tirwedd.

- Gall rhieni/cynhalwyr a gwirfoddolwyr eraill helpu i gadw'r costau'n isel – bydd archwiliad sgiliau yn helpu i nodi'r bobl a'r sgiliau sydd ar gael. Am waith arbenigol – cynllunio gardd synhwyraidd, er enghraifft, neu adeiladu mannau eistedd – efallai y penderfynwch eich bod angen help gweithiwr proffesiynol fel cynllunydd gerddi neu bensaer tirwedd.
- Mae cynllunydd gerddi yn ddelfrydol ar gyfer tirweddu 'meddal' (fel nodweddion dŵr, gwelyau blodau wedi'u codi, coed) a thirweddu 'caled' syml fel decin, waliau neu lwybrau. Nid oes angen i gynllunwyr gerddi fod â chymhwyster academaidd neu broffesiynol i sefydlu busnes, er bod llawer yn meddu ar gymwysterau o'r fath.
- Pensaer tirwedd yw'r dewis gorau ar gyfer newidiadau mwy cymhleth sy'n cynnwys cryn dipyn o dirweddu caled.

Ceisiwch gynnwys y plant gymaint â phosibl – mae eu barn yn bwysig ac maen nhw wrth eu bodd yn baeddu eu dwylo! Gallant helpu'n hawdd gyda thasgau fel plannu. O ran gwaith nad yw'n briodol iddynt gymryd rhan ynddo, gwnewch yn siŵr eu bod yn gweld y newidiadau'n digwydd, drwy wylio a recordio gwaith yn mynd rhagddo er enghraifft, neu drwy glywed am y prosiect gan un o'r contractwyr mewn gwasanaeth boreol o bosibl. Hefyd, bydd cofnod ffotograffig o'r gwaith yn mynd rhagddo yn helpu i'w cynnwys yn y broses.

Dyma pryd y dylech hefyd ystyried a oes angen cymorth neu hyfforddiant ychwanegol ar staff, a fyddai adnoddau dysgu ychwanegol yn fanteisiol ac a oes angen newid polisïau er mwyn cefnogi'r newidiadau ffisegol a sicrhau eu bod yn llwyddiannus ac yn gynaliadwy.



**Ysgol Gynradd Christchurch, Y Rhyl**
Fel rhan o'u gweledigaeth ar gyfer man cwad yr ysgol, penderfynodd yr ysgol bod angen gardd ddiogel ar y plant i chwarae, darllen neu i fwynhau teimlad planhigion a gwair ynddi. Drwy gysylltu â busnesau yn y gymuned leol denodd y pennaeth gyllid ar gyfer y prosiect. Rhoddwyd dau gwch, sy'n creu'r thema ar gyfer yr ardd, gan gadlanciau môr y Rhyl a rhoddodd adeiladwyr leol bibellau a chafnau. Gydag esgidiau glaw, dillad dal dŵr, hetiau a chotiau wrth law, mae gan y plant y cyfle i archwilio a defnyddio'r ardd gydol y flwyddyn, boed law neu hindda. Pa ffordd well o ddysgu am ddillad dal dŵr na mynd allan yn y glaw ac aros yn sych?

## Creu cynllun rheoli a chynnal a chadw

Bydd cynllun rheoli sydd wedi'i ystyried yn ofalus a'i ddiweddaru'n rheolaidd yn helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu'ch mannau awyr agored, a bydd cynllun cynnal a chadw yn sicrhau bod modd parhau i ddefnyddio'r mannau hynny drwy gydol y flwyddyn ac yn y dyfodol.

Bydd cynllun rheoli yn cynnwys tasgau cynnal a chadw yn ogystal â manylion am:

- bwy sy'n gyfrifol am beth
- sut y mae'r lle'n cael ei ddefnyddio
- beth mae'n ychwanegu at brofiadau dysgu plant yn y lleoliad
- sut y darperir adnoddau ar ei gyfer
- sut bydd y gyllideb ar gyfer y tu allan yn cael ei gwario.

Dylech gynnwys canllawiau neu bolisi ar reoli eich mannau awyr agored fel rhan o weledigaeth a chynllun datblygu cyffredinol eich lleoliad. Dylai gynnwys meini prawf llwyddiant, gan nodi sut byddwch chi'n gwybod bod eich mannau awyr agored yn cael defnydd a gofal priodol.

Bydd cynllun cynnal a chadw yn eich helpu i wneud y gorau o'r cyfleoedd dysgu a chwarae y mae'ch lleoliad yn eu cynnig drwy sicrhau amgylchedd sy'n cael gofal da, sydd nid yn unig yn edrych yn dda ond hefyd yn hwyluso chwarae a dysgu brwd. Mae tasgau cynnal a chadw'n amrywio o baentio ffensys a thorri gwair i gribino pyllau tywod a mynd i'r afael â phroblemau draenio.

Pan mae gofal hirdymor eich ardal yn rhan o'r cynllun cychwynnol, mae'n dod yn llawer haws rheoli a chynnal a chadw'r ardal. Mae diffyg cynnal a chadw yn arwain at ddifrod ac yn cael effaith negyddol ar forâl staff. Pan fyddwch yn llunio cynlluniau a dyluniadau manwl, dechreuwch ystyried a phenderfynu:

- beth yw goblygiadau gwaith cynnal a chadw hirdymor o ran cost ac o ble y daw'r arian.
- pwy fydd yn cynnal a chadw'r nodwedd neu'r offer – sut byddant yn cael amser i wneud hynny a phwy fydd yn eu helpu.
- pa mor aml fydd angen gwneud y tasgau a pha adnoddau fydd eu hangen.
- a fydd unrhyw dasgau rheoli a chynnal a chadw rheolaidd yn cael eu hymgorffori wrth i chi gynllunio eich cwricwlwm.

Os oes gennych gontract cynnal a chadw tir neu erddi eisoes, siaradwch â'ch contractwr ynglŷn â'r newidiadau arfaethedig. Efallai y gall eich helpu i weithredu rhai o'r newidiadau. Fel arall, efallai bod gennych ofalwr, garddwr lleol neu fod perchennog y safle'n gwneud y gwaith cynnal a chadw. Pwy bynnag sy'n gwneud y gwaith bydd angen rhestr wirio arnoch.

Defnyddiwch y **cynllun Rheoli a chynnal** ar dudalen 4.5.






**Gallwn helpu** Drwy ein cynllun aelodaeth gallwch ddefnyddio cyfeiriadur ar-lein LTL Cymru i'ch helpu i ddod o hyd i bobl broffesiynol sy'n arbenigo ar ddatblygiadau tir ysgol yn eich ardal. I wybod mwy ewch i **www.ltl-cymru.org.uk**.

## Dathlu!

Mae gwneud newidiadau yn yr awyr agored yn galw am lawer o ystyriaeth, gwaith caled, ymgynghori, ymgysylltu ac ymrwymiad. Mae'n bwysig bachu ar bob cyfle i ddathlu cyflawniadau.

### Dathlu'r plant

Drwy gynnwys y plant yn eich prosiect byddwch wedi cynhyrchu cyfoeth o ddeunydd – lluniau a ffotograffau a dynnwyd ganddynt, cwestiynau a ofynnwyd ganddynt. Dangoswch werth y dysgu sydd wedi digwydd gyda llyfrau ac arddangosiadau o waith fel bod y plant, y rhieni a staff yn gallu mwynhau ac edrych yn ôl ar y prosiect gyda'i gilydd. Gofynnwch gwestiynau fel:

- sut oedd y lle'n edrych o'r blaen?
- pa mor debyg yw'r hyn sydd gennym i gynllun Owain ar gyfer y pwll tywod?
- a ydych chi'n cofio Amit yn gofyn am le i guddio? I ble mae e'n mynd nawr?

### Dathlu gyda'r rhieni a'r gymuned ehangach

Yn aml, bydd newidiadau a wnewch i du allan eich lleoliad yn amlwg iawn i'r gymuned. Gallai garddwest, ffair, gwŷl, eisteddfod neu barti tymhorol yn yr awyr agored fod yn ffordd wych o gynnwys rhieni/cynhalwyr a'r gymuned wrth i chi ddathlu'r newidiadau a'r hyn a wnewch ym mannau awyr agored eich lleoliad. Defnyddiwch yr achlysur i annog rhieni/ cynhalwyr i rannu gwahanol sgiliau, fel coginio neu greu cerddoriaeth yn yr awyr agored. Anogwch nhw i gofio'r gemau yr arferent eu chwarae'n blant a'u dysgu i chi er mwyn eu trosglwyddo i'r genhedlaeth nesaf. Daliwch ati i ddathlu yn yr awyr agored drwy gydol y flwyddyn, gan gysylltu eich dathliadau â'r amrywiaeth eang o wahanol ddiwylliannau, gwyliau a thraddodiadau a gynrychiolir yn eich cymuned.

### Dathlu'r staff

Mae ymroddiad staff yn hanfodol i lwyddiant prosiect awyr agored. Cofiwch gydnabod hyn drwy roi cyfleoedd datblygiad proffesiynol i'w cefnogi. Anogwch nhw i gynnal ymchwil weithredol i effaith unrhyw newidiadau a wnaethoch. Rhowch gyfle iddynt rannu beth maent wedi'i ddysgu – a sut y mae wedi newid eu harferion gwaith – gydag aelodau eraill o staff a rhieni/cynhalwyr neu gydweithwyr o leoliadau eraill.

### Rhoi cyfle i eraill ddysgu o'r hyn a wnaethoch

Defnyddiwch y cyfryngau i ddweud eich stori ac ysgrifennwch am eich profiadau ar gyfer astudiaeth achos. Mae LTL Cymru bob amser yn awyddus i glywed eich stori (hyd yn oed os yw'r newidiadau a wnaethoch yn fach). Byddem wrth ein boddau'n gweld eich ffotograffau neu waith y plant. Gyda'ch caniatâd chi gallwn ddefnyddio'ch astudiaeth achos i ysbrydoli eraill ledled y DU.

## Pwyso a mesur...

Fel y dywedwyd ar ddechrau'r arweiniad hwn, proses o newid yw datblygu eich mannau awyr agored, ac mae iddi bedwar cam:

- ble rydyn ni nawr?
- beth ydyn ni am ei gyflawni?
- sut mae cyrraedd y nod?
- gwneud y newidiadau.

Peidiwch ag anghofio mai proses gron yw hi. Unwaith y byddwch chi wedi gwneud y newidiadau, dylech ofyn eto 'Ble rydyn ni nawr?' Wrth i chi fwynhau eich ardal newydd, dylech werthuso'r hyn rydych chi wedi'i gyflawni a'r gwahaniaeth y mae wedi'i wneud – bydd hyn yn eich helpu i bwyso a mesur a ydych chi wedi cyflawni'ch eich amcanion.

**Gallwn helpu** Mae gan LTL Cymru fanylion ynglŷn â sut i ymchwilio i effaith newidiadau yn *Mesur Llwyddiant*. Gall unrhyw un sy'n ymweld â'n gwefan lawrlwytho'r ddogfen am ddim. I wybod mwy ewch i **www.ltl-cymru.org.uk.**



# Teithiau gyda phlant

Nawr eich bod wedi gwneud eich newidiadau, defnyddiwch y gweithgaredd hwn i werthuso'ch cyflawniadau.

## Defnyddiwch y gweithgaredd hwn i

- nodi hoff fannau yn y mannau awyr agored presennol
- arolygu nodweddion sy'n bodoli'n barod yn y mannau awyr agored
- nodi nodweddion, cyfarpar neu weithgareddau sy'n bwysig i blant

## Adnoddau

- camera neu gamera fideo
- clipfyrddau, pensiliau a phapur
- dictaffon, recordydd llais MP3 neu recordydd tâp

## Casglu gwybodaeth drwy

- ofyn i blant unigol fynd â chi ar daith o gwmpas y mannau awyr agored. Gadewch iddynt ddilyn pa bynnag lwybr y dymunant a gadewch iddynt reoli'r daith.
- recordio sylwadau'r plentyn ar y daith gan ddefnyddio anogwyr lle mae angen a chwestiynau penagored.
- lle'n bosibl, gofynnwch i blentyn arall ffilmio'r daith.
- rhannu'r wybodaeth a gasglwyd gyda'r holl blant a staff yn y lleoliad. Gall hyn sbarduno trafodaeth a gwybodaeth bellach.





# Cynllun Rheoli a Chynnal

| | Ionawr | Chwefror | Mawrth | Ebrill | Mai | Mehefin | Gorffennaf | Awst | Medi | Hydref | Tachwedd | Rhagfyr | Bob wythnos | Bob blwyddyn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **1 Coed** | | | | | | | | | | | | | | |
| 1.1 | | | | | | | | | | | | | | |
| 1.2 | | | | | | | | | | | | | | |
| 1.3 | | | | | | | | | | | | | | |
| 1.4 | | | | | | | | | | | | | | |
| **2 Cyfarpar sefydlog** | | | | | | | | | | | | | | |
| 2.1 | | | | | | | | | | | | | | |
| 2.2 | | | | | | | | | | | | | | |
| 2.3 | | | | | | | | | | | | | | |
| 2.4 | | | | | | | | | | | | | | |
| **3 Tirweddu** | | | | | | | | | | | | | | |
| 3.1 | | | | | | | | | | | | | | |
| 3.2 | | | | | | | | | | | | | | |
| 3.3 | | | | | | | | | | | | | | |
| 3.4 | | | | | | | | | | | | | | |
| 3.5 | | | | | | | | | | | | | | |
| **4 Ffiniau** | | | | | | | | | | | | | | |
| 4.1 | | | | | | | | | | | | | | |
| 4.2 | | | | | | | | | | | | | | |
| **5 Ardaloedd cynefinoedd** | | | | | | | | | | | | | | |
| 5.1 | | | | | | | | | | | | | | |
| 5.2 | | | | | | | | | | | | | | |
| 5.3 | | | | | | | | | | | | | | |
| 5.4 | | | | | | | | | | | | | | |
| **6 Eraill** | | | | | | | | | | | | | | |
| 6.1 | | | | | | | | | | | | | | |
| 6.2 | | | | | | | | | | | | | | |
| 6.3 | | | | | | | | | | | | | | |

Allwedd: **Rh** Rhieni **SALl** Swyddog Awdurdod Lleol **S** Staff **SG** Staff Tir **P** Plant **Co** Contractwr

# Mwy am Learning through Landscapes Cymru



Mae LTL Cymru yn rhoi cyngor a chymorth i leoliadau'r blynyddoedd cynnar i'w helpu i wneud y gorau o'u mannau awyr agored ar gyfer dysgu a chwarae. Cynigiwn amrywiaeth o wasanaethau sy'n cynnwys hyfforddiant a datblygiad proffesiynol, ymweliadau safle yn ogystal ag aelodaeth, cyhoeddiadau a gwefan ddwyieithog arbennig i Gymru. Buom yn cynorthwyo gyda'r gwaith o lunio modiwl 6 (Dysgu yn yr Awyr Agored) Cyfnod Sylfaen y Pecyn Hyfforddi Cenedlaethol a gallwn gefnogi popeth a ddysgoch o fewn eich awdurdod lleol yn ogystal â chynnig llawer iawn mwy.

Mae mannau awyr agored yn adnoddau gwych, ac eto anaml y gwneir digon o ddefnydd ohonynt. Gall LTL Cymru eich helpu i:

- gyflwyno pob agwedd ar y cwricwlwm mewn ffordd ysgogiadol, ystyrlon a llawn hwyl.
- creu cyfleoedd go iawn ar gyfer cyfranogi.
- cynyddu cyfleoedd dysgu a chwarae.
- gwella'r amgylchedd i blant a'r staff fel ei gilydd, gan ei wneud yn lle gwell a hapusach gyda naws cadarnhaol a gofalgar.
- darparu ystod eang o gyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol ar gyfer gweithgarwch corfforol, gwella iechyd, lles a chymhelliant i ddysgu.
- canfod sut i wneud newidiadau ffisegol i'ch safle a dod o hyd i bobl all eich helpu.





## Gwasanaethau i aelodau

Un o'n dulliau mwyaf effeithiol o ddarparu cymorth pwrpasol i leoliadau'r blynyddoedd cynnar ac ysgolion yw drwy ein cynllun aelodaeth. Mae aelodaeth yn cynnig:

- faint bynnag o gyngor a chymorth unigol dros y ffôn neu e-bost fydd ei angen arnoch
- cylchlythyr llawn ysbrydoliaeth bob deufis – bydd llawer o'r deunydd yn ategu Modiwl Hyfforddiant Dysgu Awyr Agored y Cyfnod Sylfaen
- mynediad ar-lein i lyfrgell adnoddau gynhwysfawr.
- gostyngiadau ar hyfforddiant, cynadleddau a chyhoeddiadau.

Mae Early Years Outdoors yn canolbwyntio'n benodol ar ddiwallu anghenion pobl sy'n gweithio gyda phlant y Cyfnod Sylfaen neu iau. Mae adnoddau ychwanegol ar gael i'r rhai sy'n gweithio gyda phlant dros oed y Cyfnod Sylfaen.

## Hyfforddiant

Mae gan LTL Cymru nifer o becynnau hyfforddi a fydd yn eich helpu i wneud y gorau o'ch mannau awyr agored. P'un a ydych chi eisiau helpu i ymgorffori dysgu awyr agored yn eich cynlluniau cwricwlwm, hybu chwarae cadarnhaol, neu gynllunio gwelliannau i dir eich lleoliad, gall ein hyfforddwyr ddiwallu eich anghenion. Mae'r cyrsiau'n cynnwys:

- Beth bynnag fo'r tywydd
- Camau cynllunio cyntaf
- Mathemateg yn yr awyr agored
- Gwneud y gorau o ddysgu a chwarae yn yr awyr agored

Rydym yn cynnal cyrsiau hyfforddi mewn amryw o leoliadau ledled Cymru, ond gallwn hefyd drefnu cyrsiau pwrpasol i ddiwallu anghenion unigol eich lleoliad. Mae ein gwefan yn cynnwys dyddiadur hyfforddi cyfredol yn ogystal â manylion ein cyrsiau Datblygiad Proffesiynol Parhaus.





## Ymweliadau cynghori â'r safle

Bydd ein gwasanaeth ymweld â safleoedd yn eich helpu i wneud y gorau o'ch man awyr agored ac yn cynnig cyngor a chymorth wedi'i addasu'n arbennig ar eich cyfer. Gall hyn olygu ymweliad syml neu gynnwys sesiynau gweithdy, sesiynau gyda'r hwyr i staff ac adroddiad ysgrifenedig dilynol. Gall ymweld â safleoedd helpu i:

- wneud y gorau o'ch man awyr agored, beth bynnag yw ei natur
- gwneud y gorau o gyllideb dynn
- ystyried beth rydych chi eisiau ei wneud o ran dysgu a chwarae yn yr awyr agored
- rheoli'r prosiect
- sicrhau bod eich arferion a'ch darpariaeth awyr agored yn gynaliadwy.

## Tir ysgol

Gall LTL Cymru hefyd gynnig cefnogaeth a chyngor i ysgolion sy'n bwriadu datblygu eu darpariaeth awyr agored o'r Cyfnod Sylfaen i fyny i Gyfnod Allweddol 2. Gyda'r cwricwlwm newydd yn canolbwyntio ar barhad a chynnydd yn ogystal â'r dysgwr, gall yr awyr agored gynnig llawer o brofiadau ymarferol sy'n rhan bwysig o ddatblygu sgiliau allweddol, beth bynnag yw oedran neu gyfnod y plant.

Gall LTL Cymru gynnig hyfforddiant, cyngor ar ymweliadau safle ac aelodaeth drwy'r ysgol gyfan i sicrhau cefnogaeth i barhad a chynnydd.





Mae Learning through Landscapes yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (803270)
ac yn gwmni cyfyngedig drwy warant yn Lloegr Rhif 2485660.

## Sefydliadau defnyddiol

**BTCV Cymru**
Cyngor ar reoli prosiectau cymunedol, cynnwys gwirfoddolwyr neu gael Campfa Werdd. Ewch i **www.btcvcymru.org.uk**

**Chwarae Cymru**
Gwybodaeth ac arweiniad ar chwarae a darparu chwarae i bawb sydd â diddordeb mewn chwarae plant yng Nghymru. Ewch i **www.chwaraecymru.org.uk**

**Comisiwn Coedwigaeth Cymru**
Syniadau ar wneud y gorau o goetiroedd ar gyfer dysgu, adnoddau ac ysbrydoliaeth ar gyfer gwersi, gwybodaeth am wneud y gorau o dir eich ysgol, a manylion am y sefydliad 'ysgolion coedwig'. Ewch i: **www.forestry.gov.uk**

**ContinYou Cymru**
Gweithio ledled Cymru i wella dysgu a lles plant, pobl ifanc, teuluoedd a chymunedau. Ewch i **www.continyou.org.uk**

**Cyfnod Sylfaen – Chwarae, Dysgu, Tyfu**
Gwybodaeth bellach am y Cyfnod Sylfaen ac addysg yng Nghymru, wedi'i ddarparu gan APADGOS. Ewch i **www.cymru.gov.uk/foundationphase** neu **www.chwaraedysgutyfucymru.gov.uk**

**Cymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn-ysgol Cymru**
Dyma'r darparwr mwyaf yng Nghymru o ofal plant ac addysg cyn-ysgol yn y gymuned. **www.walesppa.org**

**Cymdeithas Genedlaethol Gwarchod Plant (NCMA)**
Gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig, nanis ac unigolion a sefydliadau eraill i sicrhau bod teuluoedd yn gallu manteisio ar ofal plant yn y cartref, chwarae, dysgu a chymorth i deuluoedd o ansawdd uchel. Ewch i **www.ncma.org.uk**

**Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)**
Ceisio gwella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar. Ewch i **www.ndna.org.uk**

**Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC)**
Nod CCGC yw gwneud yr amgylchedd yn rhan werthfawr o fywydau pawb yng Nghymru. Ewch i **www.ccw.org.uk**

**Eco-Sgolion Cymru**
Menter ryngwladol sy'n darparu fframwaith ar gyfer cefnogi datblygu cynaliadwy mewn ysgolion. Ewch i **www.eco-sgolioncymru.org**

**Estyn**
Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Ewch i **www.estyn.gov.uk**

**Mudiad Ysgolion Meithrin**
Sefydliad gwirfoddol yw'r Mudiad Ysgolion Meithrin. Ei nod yw rhoi cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru elwa ar wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar drwy gyfrwng y Gymraeg. Ewch i **www.mym.co.uk**

**Partneriaeth Dysgu yn y Gwir Fyd Cymru**
Yn cydweithio dros ddysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth i bob plentyn yng Nghymru. Ewch i **www.rwlcp.org**